| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD** | 18 Mehefin 2015 |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Iaith 2014-15 |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i'r aelodau:<br>- dderbyn a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol i'w anfon at Gomisiynydd y Gymraeg erbyn 30 Mehefin 2015 |
| **AWDUR** | Debbie A W Jones<br>Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (ac Iaith) |

## 1. CEFNDIR

1.1 Dyma'r Adroddiad Blynyddol olaf ar y Cynllun Iaith a gymeradwywyd gan yr Is-bwyllgor a Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2010.

1.2 Mae'r Adroddiad Blynyddol yn seiliedig ar adroddiadau monitro staff ar draws holl Wasanaethau'r Cyngor a hefyd materion strategol yn codi o'r Pwyllgor Iaith.

1.3 Mae'r Adroddiad yn dilyn y patrwm adrodd a osodwyd yn wreiddiol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, sy'n cynnwys y gofyn i adrodd yn flynyddol ar ddangosyddion penodol (Dangosyddion Iaith Gymraeg- DIG). Mae'r dangosyddion yma'n cynnwys meysydd allweddol megis gwasanaethau dwyieithog, cwynion iaith, trefniadau trydydd parti a sgiliau ieithyddol staff.

## 2. YR ADRODDIAD BLYNYDDOL

2.1. Yn adran 2A) ceir grynodeb o gydymffurfiaeth a thargedau'r Cynllun Gweithredu 2010- 2013.

2.2. O fewn yr Adroddiad Blynyddol, rhoddir sylw penodol i'r gwaith a'r cynnydd fu ar brosiectau gyda gwasanaethau penodol.

2.3. Parheir i aros am ddata gan rai Adrannau i'w cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol. Disgwylir y bydd y data hwn wrth law yn fuan, ac mewn da bryd ar gyfer cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg.

## 3. ARGYMHELLION

3.1. Gofynnir i'r aelodau:

- dderbyn a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol i'w anfon at Gomisiynydd y Gymraeg erbyn 30 Mehefin 2015.